Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025 a,**<br>**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025** |
| **DYDDIAD** | **21 Hydref 2025** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** |

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi heddiw fy mod wedi gosod dwy set o reoliadau drafft i wneud newidiadau i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("DTTT 2017") i estyn y rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir ar gyfer safleoedd treth arbennig i safleoedd a ddynodwyd gan lywodraeth y DU yng Ngogledd Ynys Môn, fel rhan o Borthladd Rhydd Ynys Môn, ac ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025 yn diwygio Atodlen 21A i DTTT 2017 i ddarparu rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir ar gyfer safleoedd treth arbennig Gogledd Ynys Môn a leolir o fewn Porthladd Rhydd Ynys Môn.

Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025 yn diwygio Atodlen 21A i DTTT 2017 i ddarparu rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir ar gyfer y safleoedd treth arbennig a leolir o fewn Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r cymhellion treth, gan gynnwys y rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir ar gyfer safleoedd treth arbennig, yn hollbwysig ar gyfer y Rhaglen Porthladdoedd Rhydd a'r Rhaglen Parthau Buddsoddi. Eu nod yw helpu safleoedd i ddenu buddsoddiad preifat a chyflawni amcanion polisi'r rhaglenni hyn.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar y ddwy set o reoliadau ar 18 Tachwedd 2025.

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025**

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025**

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025